# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 260 Pris £1 Mis Rhagfyr 2023

# Nadolig Llawen i Bawb




Pen y Fan, ger Sarn Helen, Libanus




**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print,**

# Canolfan Gwenllïan

Braint oedd derbyn gwahoddiad i Agoriad Swyddogol Canolfan Gwenllïan yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod brynhawn Gwener, 27ain o Hydref.



*Côr yr Ysgol*

Mrs Sarah Edward, gyda chymorth Mr Cai Ireland, sy'n gyfrifol am y Ganolfan â'r hanner dwsin o blant sydd yno ar hyn o bryd. Bydd y Ganolfan yn gallu darparu ar gyfer hyd at 12 o ddisgyblion yn y pen draw. Disgyblion yw'r rhain a gollodd y cyfle i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg am wahanol resymau. Roedd rhai wedi symud i'r ardal, neu i Gymru, pan oedd y plant yn rhy hen i ddechrau mewn Ysgol Gymraeg a gwelwyd bod hyn yn cynnwys un teulu o America. Tynnodd rhai rhieni eu plant allan o'u hysgolion Cymraeg adeg Covid am eu bod yn amau eu gallu i gefnogi eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg yr adeg honno. Fel hyn mae'r ddarpariaeth hon yn cynnig mynediad hwyr i blant i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg.

Croesawodd y prifathro Jamie Hallett ymhlith eraill, Keri Cole, Prif Swyddog Addysg Caerffili, Catrin Morris o Lywodraeth Cymru, Elen Robert o'r Consortia Rhanbarthol, Sarah Mutch, Cyngor Caerffili, Matthew MacAvoy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Daeth Rhydian Bowen-Phillips Radio Cymru hefyd yno i dynnu llun ac i baratoi adroddiad am y digwyddiad. Darparwyd paned a theisennod i'r sawl a fu'n mwynhau'r dathliad a thorrwyd teisen grand iawn.




*Y Deisen*

Wrth groesawu'r gwesteion pwysleisiodd Mr Hallett taw hon oedd yr uned gyntaf yn y sir ac felly yn arloesol a hefyd yn codi statws yr ysgol. Diolchodd i Keri Cole a Sarah Mutch am ymddiried y ddarpariaeth hon i Ysgol Gilfach. Roedd wedi gweld cynllun tebyg yn gweithio i fyny yn Wrecsam ac roedd yn gobeithio y byddai darpariaeth fel hon yn ymestyn i'r sector uwchradd ac i awdurdodau eraill.



*Torri'r Rhuban*



*Seren a Sbarc y Siarter Iaith*

Torrwyd rhuban i nodi lansiad yr Uned gan Mr Hallett ar y dot am 2:45 ac roedd uchafbwyntiau'r prynhawn yn cynnwys dwy eitem gan gôr yr ysgol. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys cân a ysgrifennwyd yn arbennig gan Mr Aled Perry-Hopton, dirprwy bennaeth Ysgol Gilfach Fargod. Roedd y plant a phawb arall wedi dwlu gweld bod Mistar Urdd wedi dod ar ymweliad a bod Seren a Sbarc, cymeriadau'r Siarter Iaith hefyd yno.

*Y Golygydd*

# Gareth Hughes – Croeso Mawr!

Dyn ei filltir sgwâr, heb unrhyw amheuaeth, yw Gareth Hughes, pennaeth newydd Ysgol y Castell, Caerffili. Mae wedi cyrraedd pinacl ei yrfa broffesiynol drwy ddod yn brifathro prin ddwy filltir o'r man y cafodd ei eni. Mae, i bob pwrpas, yn arweinydd yr ysgol lle dechreuodd ei addysg oherwydd, tra'n byw yn Llanbradach mynychodd yr Uned Gymraeg  yn Ysgol Coed-y-brain y pentre'. A'r Uned honno, fel y gwyddom oedd y fesen a dyfodd i fod yn dderwen, sef Ysgol y Castell.

Rhwng bod yn yr Uned ac yn y Castell treuliodd Gareth ei ddyddiau ysgol  yn Ysgol Gymraeg Caerffili,  Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac wedi hynny Coleg UWIC yng Nghaerdydd lle cyflawnodd ei radd addysgu, gan arbenigo mewn Addysg Gorfforol. Doedd ei ddewis o bwnc ddim yn syndod gan ein bod yn cofio amdano yn athletwr o fri. Ym maes athletau, taflu'r ddisgen oedd ei gamp, lle daeth yn bencampwr Cymru dan 16. Ond rygbi oedd ei ddiléit pennaf  fel canolwr cydnerth. Buodd yn cynrychioli tîm dan 16 ardal Cwm Rhymni ac yna mynd ymlaen i gael ei ddewis ar gyfer profion i gynrychioli Dwyrain Cymru. Y dylanwad mawr arno yn ystod ei lwyddiannau oedd un o'i athrawon yn Ysgol Cwm Rhymni, Geraint Lewis, un a fu'n rhan o dîm llwyddiannus Pontypridd. Dan arweiniad hwnnw daeth i werthfawrogi pwysigrwydd llwyddiant academaidd a dilyn llwybr gyrfa lwyddiannus, ochr yn ochr â'i gariad at chwarae rygbi. Roedd nifer o athrawon a ddysgodd Gareth wedi ei ysbrydoli i ddod yn athro ei hun, a'r dylanwadau cynnar yma atgyfnerthodd y gwerthoedd sy'n bwysig iddo heddiw. Mae'n gynnyrch balch iawn o'r 'system'.



*Gareth gyda Vicky,  Sophia (7) ac Ella Mai (4)*

Roedd yn anochel y byddai ganddo freuddwyd o chwarae rygbi'n broffesiynol ond cyngor da a orfu. Yn hytrach rhannodd ei sgiliau a'i wybodaeth gyda'i ddisgyblion. Llynedd arweiniodd y tîm mwyaf talentog a fu dan ei ofal yn Ysgol y Castell.  Cyrhaeddodd y tîm rownd gynderfynol cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr yr Urdd. Yna,  gwneud yr un peth gyda chystadleuaeth 10 bob ochr cenedlaethol Undeb Rygbi Cymru.

Ond bu eraill yn ddylanwadol yn ei ddatblygiad fel chwaraewr ac athro. Mae'n fwy ymwybodol na neb o gefnogaeth ei rieni. Hwy, heb air o Gymraeg, yn dewis addysg yn yr iaith i'w mab ac yna'n ei gefnogi ef a'i frawd ar eu taith. Cafodd gyfleoedd di-ri i ddatblygu dan arweiniad Mr Lynn Griffiths, fel athro ifanc ac aelod o uwch dîm rheoli  Ysgol Gymraeg Caerffili. Mynd ymlaen wedyn i fod yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol y Castell. Wedi ennill cymwysterau arwain ysgol manteisiodd ar yr holl gyfleodd gafodd gan ei bennaeth yno, Mrs Helen Nuttall. Mae Gareth yn cydnabod y fraint o gael ei fentora gan Helen. Roedd y profiadau a'r cyfleoedd datblygu a ddarparwyd ganddi yn werthfawr ac wedi ei baratoi ar gyfer yr her o arwain ysgol.

Mae Gareth yn ymwybodol iawn iddo etifeddu ysgol lwyddiannus iawn a honno bellach â 458 o blant ynddi. Mae ei weledigaeth yn glir, i ddatblygu dysgwyr annibynnol, hapus a gydol oes sydd â balchder yn yr iaith Gymraeg. Ei uchelgais nawr yw datblygu'r ysgol i'w llawn dwf gan fod lle ar gyfer derbyn 70 o blant bob blwyddyn. Daeth bron i hanner cant o deuluoedd i weld y Feithrin ar ddiwrnod agored yn ddiweddar, ac mae'n derbyn ymholiadau cyson gan rieni sy'n awyddus i ddewis addysg Gymraeg i'w plant.  Mae'r datblygiadau a'r newidiadau ym myd addysg erbyn hyn yn syfrdanol.

Mae Gareth yn falch iawn ei fod yn cefnogi twf yr iaith yn ei ardal leol, gan gydweithio'n agos gydag ysgolion Cymraeg eraill yng nghlwstwr Cwm Rhymni. Braf yw gallu ymfalchïo yn y cydweitho sydd rhwng ysgolion yng Nghymru. Hefyd mae hyn wedi bod yn draddodiad ymhlith Ysgolion Cymraeg Cwm Rhymni. Mae addysg yn newid, wrth gwrs, am fod cymdeithas a'r disgwyliadau hwythau yn newid hefyd.

Mae Gareth yn dwlu byw yn ei gymuned. Teimla ei fod yn deall y plant ac yn gwybod o le maen nhw'n dod. Ar ôl diffodd y gliniadur a gadael yr ysgol  edrych ymlaen i dreulio amser gyda'i wraig Vicky a'i blant, Sophia sy'n saith ac Ella Mai sy'n bedair yw ei hyfrydwch.

*Y Golygydd*

# clare e. potter - bardd

Profiad gwefreiddiol oedd clywed Clare Potter yn sgwrsio gyda Dei Thomas ar Radio Cymru ddiwedd mis Hydref. Y rheswm dros gynnal y cyfweliad hwnnw oedd mai Clare oedd Bardd y Mis Radio Cymru. Rhoddodd bod yn Fardd y Mis dipyn o ysbrydoliaeth a hyder iddi i geisio creu casgliad o farddoniaeth yn y Gymraeg.Dim ond ers rhyw dair blynedd mae hi wedi bod yn ysgrifennu yn y Gymraeg ond mae hi hefyd wedi bod wrthi'n perswadio eraill i farddoni. Cymerodd ran mewn menter newydd 'Awduron a'u Gwaith' yng Ngŵyl y Gelli bum mlynedd yn ôl, gan fwynhau'r naws lenyddol yno.



*Llun gan Huw Gosling*

Wedi'i magu yng Nghefn Fforest, mynychodd Clare Ysgol Gyfun y Coed Duon, lle dysgodd Gymraeg ac elwa'n fawr o anogaeth ei hathro Cymraeg dylanwadol, Cerith Lewis. Un arall a'i hanogodd i feistroli'r iaith oedd Dr Elin Jones, Ystrad Mynach. Astudiodd yr iaith at lefel A gan fwynhau amrywiaeth o brofiadau ieithyddol a'i galluogodd i weld yr iaith yn wirioneddol ar waith. Ond doedd hi ddim yn teimlo ei bod yn gwbl rugl tan iddi fwynhau profiadau ehangach.

Ym Mhrifysgol Abertawe astudiodd Saesneg ac Astudiaethau Americanaidd a'i harweiniodd ymhen y rhawg i'r Unol Daleithiau, lle bu'n aros yn New Orleans a Mississippi. Yn Mississippi gweithiodd am radd Meistr drwy astudio llenyddiaeth Affro Caribîaidd. Gwnaeth Clare fwynhau ei hamser yno, cyn dychwelyd i ddechrau Ph.D. yng Nghaerdydd ond heb ei orffen (gan ei bod wedi ateb y galw i weithio yn y gymuned i wneud prosiectau barddonol ac ati).

Mae Clare yn cofio mentro ysgrifennu barddoniaeth pan oedd ond yn bum mlwydd oed, tra'n treulio amser gyda'i mam-gu ac yna cael ei hannog i ysgrifennu yn yr ysgol. Ond, yn hwyrach yn ei bywyd, dechreuodd deimlo'n wahanol wrth ysgrifennu yn y Gymraeg. Yn America daeth o hyd i flodeugerdd yn dwyn y teitl, '*Ten Poems to Change Your Life*'. Gwnaeth y gyfrol hon, ynghyd â theimlad o hiraeth am adre, ei symbylu eto i dddefnyddio'r Gymraeg yn ei barddoniaeth.

Mae Clare yn teimlo'n angerddol am ysgrifennu barddoniaeth; mae'n brysur ac yn ennill bywoliaeth drwy wneud, ynghyd ag addysgu, comisiynu a darlithio. Dywed mai'r gair mae'n hoffi ei ddefnyddio i ddisgrifio ei gweithgareddau yw HWYLUSO. Teimla bod barddoniaeth yn gallu newid pobol gan gynorthwyo iselder a salwch meddwl. Gwna hyn ar y stryd, mewn ysbytai a hosbis.

Mae wedi cynhyrchu cwpl o raglennu radio i ddathlu penblwydd Max Boyce, The Poetry of Science, The Poets' Poet and The People's Poetry i BBC Radio Wales. Hefyd mae wedi cyfarwyddo dogfen I'r BBC am y barbwr yng Nghefn Fforest.

## Cerdd yn Cerdded

cerddais gyda nyth o feddyliau
trwy'r goedwig,
sgidiau'n drwm
allweddi'n lletchwith yn fy mhoced
yn fy mhoced, y gerdd
ar goll o fy mhen
nes i mi grwydro'r hen lwybr
nes i mi ddod wyneb yn wyneb â'r llwyn eiddew,
y disgleirdeb ar y dail yn codi fy llygaid, fy nghalon, tan ddaeth
gwên ar fy ngwefusau o'r glöynnod byw yn blodeuo'r dail,
eu hadenydd yn chwifio, yn annog fy nghlustiau i gofio eu greddf,
yr adar yn eu cerddoroedwig yn dod â mi yn ôl
i'r gwobrwyo a ddaw o gerdded
a'r gerdd yn cyrraedd yn llwyr.

Wedi penderfynu dychwelyd i Gymru, roedd wedi dwlu pan welodd bod ei mam wedi dysgu siarad Cymraeg. Ac rydym ni yn y sir,yn ymwybodol pa mor dda mae Maureen, mam Clare, wedi meistroli'r iaith. Mae Clare nawr wrth ei bodd ei bod yn gallu cyfathrebu yn yr iaith gyda'i mam a'i phlant.

Dyma'r gerdd a enillodd iddi wobr Bardd Radio Cymru. Disgrifiodd ar y rhaglen sut y gwnaeth cerdded drwy'r goedwig wneud iddi deimlo'n wahanol. A wir, mae wedi bathu gair newydd sy'n crynhoi'r profiad: 'Cerddoroedwig'.

# Camwch i mewn i Hanes
## (Stori Uwch Fedredd)

Roedd Cameron Fitzgerald yn gweithio fel rheolwr cangen o gadwyn siopau iechyd a ffitrwydd adnabyddus pan geisiodd e am swydd wahanol iawn. Gadawodd e'i swydd gyda'r siop er mwyn gweithio yn hen faenordy prydferth Llancaeach Fawr yn Nelson, yn agos i Gaerffili.



Roedd e'n dwli ar y lle ers iddo fe ymweld ag e gyda grŵp ysgol pan oedd e'n un ar ddeg oed.
"Y peth cyntaf welwch chi wrth i chi gyrraedd yma," dwedodd Cameron, "fydd person sy'n gwisgo dillad o'r ail ganrif ar bymtheg. Bydd e neu hi'n dweud ei fod e'n was yn y tŷ. Mewn iaith o'r cyfnod, bydd e'n esbonio y bydd e a'r gweision eraill yn eich tywys chi o gwmpas."

Y nod yw argyhoeddi'r ymwelwyr bod y dyddiad yn 1645. Mae'r "gweision" yn dangos y pethau ym mhob ystafell i chi ac esbonio sut byddai'r ystafell yn cael ei defnyddio.
"Ces i fy swyno." ychwanegodd Cameron. "Teimlais i mod i'n camu i mewn i'r cyfnod hwnnw." Gwenodd e. "Dw i'n dal yn teimlo fel hyn, o hyd."

Cyn gynted â roedd e'n gallu, sef pan oedd e'n un ar bymtheg oed, dechreuodd e weithio yno fel gwirfoddolwr. Yn ddiweddarach, cafodd e swydd rhan amser fel aelod cymorth. Wedyn roedd cyfle am swydd barhaol, ac roedd angen person a oedd yn siarad Cymraeg.

"Ro'n i'n wrth fy modd," dwedodd e. "Ar unwaith dechreuais i ddysgu Cymraeg er mwyn gwneud cais am y swydd. A nawr, dw i'n hapus i ddweud, dw i'n gweithio yma yn barhaol." Mae Cameron yn mwynhau ateb cwestiynau ymwelwyr. Cwestiwn cyffredin yw beth yw'r oriau rydyn ni'n gweithio, ac oes amser bant gyda ni?



Mae diddordeb gyda nhw hefyd yn y coginio yno. Yn aml maen nhw wedi eu synnu ei bod hi'n cymeryd llawer o amser i goginio cig – efallai pump awr ar gyfer cyw iâr. Bob tro mae e'n gwneud yn siŵr e fod e'n sôn am y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr ar y pryd. Er enghraifft, mae e'n hoffi dweud doedd hi ddim yn arferol i ferched weithio yn y gegin; bron bob tro dynion oedd y cogyddion. Y rheswm am hyn yw byddai rhaid iddyn nhw gludo sosbenni mawr iawn, neu godi mochyn neu ddafad cyfan i'w rostio fe.

Mae cred yn yr uwchnaturiol hefyd yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr. Yn Lloegr, pan oedd trafferth, roedd pobl yn debygol o roi'r bai ar wrachod. Yng Nghymru, ro'n nhw'n dweud taw'r tylwyth teg fyddai'n troi'r llaeth yn sur neu achosi damwain. Yn Lloegr, roedd bod yn wrach yn anghyfreithlon. Yng Nghymru, dim ond achosion drwg o ddewiniaeth oedd yn anghyfreithlon.

Mae Cameron yn teimlo bod hi'n anrhydedd bod yn berson sy'n cyflwyno pobl – oedolion a phlant – i'r teimlad o fynd nôl i'r gorffenol.

Os byddwch chi'n ymweld â hen faenordy hardd Llancaeach Fawr, fe ddewch chi o hyd i Cameron fel gwas cyffredin o'r ail ganrif ar bymtheg o'r enw Matthew Jones.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Llancaeach Fawr ar: www.llancaiachfawr.co.uk

*Jane Young*

# Cofio

Mis y cofio yw mis Tachwedd, ac nid y cofio sy'n digwydd ar Dachwedd 11eg yw'r **unig** ddefod a gynhelir i gofio'r meirw yn ystod y mis hwn. I fi, ac i nifer o bobl eraill, mae tymor y cofio yn dechrau ar Dachwedd 4ydd, pan fyddwn yn cwrdd gyda'n gilydd ym mynwent Eglwys Gadeiriol Gwynllyw yng Nghasnewydd. Byddwn yn ymgynnull o flaen llechen blaen, gydag arysgrif arni sy'n nodi bod cyrff rhai o'r dynion gafodd eu lladd ger Gwesty'r Westgate cyfagos ar Dachwedd 4ydd 1839 wedi eu claddu mewn beddau di-enw rhywle yn y fynwent honno.



Ar y noson oer a stormus honno o Dachwedd, cerddodd torf o ddynion o weithfeydd glo a haearn ein cymoedd i Gasnewydd i alw am ryddhau un o'u harweinwyr oedd wedi ei restio a'i gadw yng Ngwesty'r Westgate oherwydd iddo areithio'n danbaid dros Siartr y Bobl. Lluniwyd y Siartr hwn gan weithwyr cyffredin, ac roedd yn rhestru chwe newid fyddai'n gwella eu bywydau trwy roi llais iddynt yn rheolaeth y wlad. Y peth cyntaf oedd pleidlais i bob dyn dros 21 mlwydd oed - rhywbeth chwyldroadol mewn oes pan oedd yr hawl i bleidleisio wedi ei chyfyngu i ddynion cefnog yn unig. Roedd pwyntiau eraill y Siartr, megis pleidlais ddirgel, tâl i Aelodau Seneddol ac etholaethau cyfartal, i gyd yn anelu at greu cyfundrefn lywodraethol decach - ac at leihau breintiau'r cyfoethog.

Bu sïon ar led trwy'r ardal am y cyfarfodydd cyhoeddus tanbaid oedd yn denu miloedd, ac am y cynlluniau dirgel i orfodi'r Siartr ar yr awdurdodau trwy rym arfau. Roedd pobl yn cofio bod Llanidloes wedi bod ym meddiant y Siartwyr am bum diwrnod ym Mai 1839. Pan gyrhaeddodd yr ymgyrchwyr y Westgate, darganfyddon nhw bod milwyr arfog yn eu disgwyl. Roedd y Siartwyr wedi eu harfogi hefyd, ond roedd trefn a disgyblaeth gan y milwyr a chyfrifoldeb hefyd i sicrhau na fyddai'r terfysg yn datblygu ymhellach. Saethodd y milwyr ar y dorf er mwyn eu gwasgaru.

Does neb yn gwybod i sicrwydd sawl un o'r protestwyr oedd wedi ei ladd na sawl un a glwyfwyd. Cariwyd llawer o'r meirw a'r clwyfedig i ffwrdd gan eu ffrindiau a'u teuluoedd, a chawsant eu cuddio. Roedd ofn dial yr awdurdodau ar bob un ohonynt. Aeth y milwyr a'r cwnstabliaid ati ar unwaith i chwilio am y troseddwyr, ac i restio pob un a gymerodd ran yn y terfysg. Roedd y rhai a gladdwyd liw nos ym mynwent yr eglwys gyfagos heb neb i ofalu amdanynt, mae'n debyg.

'Nôl yn 1839, y milwyr a'u harweinwyr oedd arwyr y dydd, ac mae eu henwau wedi eu nodi mewn tystebau a phortreadau cyfoes. Ar hyn o bryd, cewch weld rhai o'r portreadau hynny mewn arddangosfa arbennig yn Oriel Gelf Casnewydd. Dihirod gwyllt oedd y terfysgwyr yng ngolwg eu cyfoedion parchus, ac mae'r ychydig luniau sydd ohonynt yn adlewyrchu hynny. Ond 185 o flynyddoedd yn ddiweddarach, ystyriwn ni'r ymgyrchwyr dros y Siartr fel arloeswyr y ddemocratiaeth sydd yn sylfaen ein hawliau sifil, a nhw yw'r arwyr heddiw.

Felly bob blwyddyn, wrth iddi nosi ar Dachwedd 4ydd, bydd rhai o gynrychiolwyr etholedig y bobl ymhlith y rhai sy'n cwrdd wrth y gofeb yn y fynwent. Bydd ASau Llundain a Chaerdydd a chynghorwyr y ddinas yno, pob un wedi ei ethol gan y bleidlais gudd honno (un arall o bwyntiau'r Siartr) y mae hawl gan bob person dros 18 oed iddi. Bydd deon yr eglwys gadeiriol yn offrymu gweddi, bydd hanes y noson honno yn 1839 yn cael ei adrodd, a bydd maer y dref yn darllen enw pob un y gwyddom amdano a laddwyd yn y gyflafan. Wedyn bydd ein cynrychiolwyr etholedig yn ein hannerch ac yn ein hatgoffa am bwysigrwydd yr hyn y bu'r Siartwyr yn ymgyrchu - ac yn marw - drosto.

Yna, yng ngolau ffaglau, bydd pob un sy'n bresennol yn cael rhoi rhosyn wrth ochr y gofeb, cyn cerdded - eto yng ngolau ffaglau - lawr yr heol sy'n arwain at y Westgate. Bydd rhai ohonom yn sylwi ar y cofebau eraill sydd wedi eu gosod yma ac acw i'n hatgoffa ein bod yn cerdded yn ôl troed ymgyrchwyr 1839. Byddwn yn cofio iddynt farw dros yr hawliau hynny y mae perygl i ni eu cymryd yn ganiataol heddiw.


Bydd y dorf yn ymgynnull o flaen hen westy'r Westgate ar ddiwedd y daith, wrth droed y cerflun trawiadol sy'n portreadu rhai o'r Siartwyr. Eleni cawsom ein gwefreiddio gan lais cyfareddol ac egni di-ben-draw Dafydd Iwan wrth iddo ein hannerch ac arwain y canu. Ychydig a feddyliais y byddwn yn clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn gyhoeddus yng Nghasnewydd, heb sôn am gannoedd yn bloeddio canu yn yr iaith hefyd. Ie, roedden ni, a'r iaith ei hun, "Yma o Hyd"!

Ond wrth ganu, cofiais fod Dafydd Iwan hefyd wedi protestio yn erbyn anghyfiawnder, a thros hawliau'r iaith - a chael ei gosbi gan yr awdurdodau am wneud. Ef yn ddi-os yw un o arwyr Cymru heddiw - ond nid felly y bu yn 1970, pan gafodd ei garcharu. Mae rhod amser yn troi, ac mae cymdeithas a'i gwerthoedd yn newid - a pheth da yw cofio hynny hefyd.

*Dr Elin Jones*

# Pobi bara - 3

Dwi ddim yn gwybod sawl un ohonoch (os unrhywun o gwbl) sydd wedi mentro arni i wneud bara yn dilyn y gyfres hon o ryseitiau. Mae'r rhan fwyaf o bobl - a minnau yn eu plith - yn darllen ryseitiau gyda diddordeb ac yna'n eu hanghofio. Ychydig iawn ohonom sy'n rhoi cynnig ar rysait newydd, mae'n debyg. Felly ges i dipyn o sioc yn ddiweddar pan ofynodd un o ddarllenwyr *Cwmnii* wrthyf am ystyr y geiriau "Dinca Fala", gan ddweud iddi roi cynnig ar y rysait a mwynhau'r canlyniad! Dyna'r rysait cyntaf oll a gynigais i chi, ac roedd yn hyfryd i wybod bod rhywun yn ei fwynhau.




***Rysait gwreiddiol (a hynafol yr 1970au).......... y cringl***

Wel, os oes unrhywun yn cyd-gerdded llwybr y popty gyda fi, tybed a ydych chi'n barod erbyn hyn i roi cynnig ar rywbeth mwy uchelgeisiol na thorth o fara beunyddiol? Fe gofiwch efallai i fi sôn rai misoedd yn ôl am fy ffrind Kari, o Norwy, a ddysgodd i fi sut i wneud teisen siocled wych. Wel, dysgodd rysait arall i fi hefyd, un am fath o fara sbeislyd sy'n cael ei baratoi yn arbennig ar gyfer y Nadolig yn Norwy, a'i enw yw Cringl ("Kringle" i Kari).



Gobeithio eich bod yn hyderus wrth wneud toes fara yn y dull traddodiadol, ac yn barod nawr i fentro ychydig. Yr un yw hanfodion y broses, sef cymysgu burum a blawd, ond byddwch yn ychwanegu cynhwysion newydd, ac yn trin y toes yn wahanol iawn!

I ddechrau, felly, rhowch 400 gram o flawd mewn powlen fawr ac ychwanegwch 7gr o furum powdwr ato ynghyd â llond llwy de o *cardamom* mâl, a chymysgwch y cyfan yn dda. Twymwch 250ml o laeth, a thoddwch 75 gr o fenyn, llond llwy de o halen a 60 gr o siwgr ynddo. Pan fydd y cymysgedd yn glaear, ychwanegwch e at y cynhwysion sych, ac, yn y ffordd arferol, cymysgwch a thylinwch y cyfan yn drwyadl.



Gadewch i'r toes brofi yn y bowlen am awr, ac yna dylinwch e eto. Ond y tro hwn, yn lle ei roi mewn tun, ffurfiwch e'n siâp hirsgwar, a dechreuwch ei rolio allan yn denau fel crwstyn tarten ffrwythau. Ceiswch ei rolio mor denau â phosibl, gan ei gadw'n hirsgwar, cyn taenu menyn meddal drosto, a gwasgaru siwgr mân, sinamon mâl a ffrwythau sychion ar hwnnw.

Y cam nesaf yw rholio'r toes o un ochr hir at y llall, a'i droi wedyn i ffurfio cylch. Rhowch hwnnw ar dun (wedi ei iro'n dda) cyn ei frwsio gyda wy wedi ei guro a thaenu darnau almwn drosto. Yna rhowch e mewn ffwrn poeth (Nwy 6, Trydan 400C) am ryw 30 munud. Cewch ei fwyta'n dwym neu'r oer!

O. N. Ces i drafferth i gael *cardamom* mâl eleni, ond roedd cael hadau *cardamom* yn ddigon hawdd. Felly rhoddais llond llwy bwrdd o'r rhain yn y llaeth cyn ei dwymo, a'u gadael ynddo wedyn wrth i'r menyn, halen a siwgr doddi.Yna hidlais y llaeth wrth ei ychwanegu at y cynhwysion sych. Rwy'n siwr y byddai sbeis arall megis nytmeg yn gwneud y tro hefyd, ond mae blas hyfryd ar *cardamom* – a dyna sydd yn rysait Kari…

*Shwt ma'r ardd in edrych?*

# Yma o Hyd

Ie, er gwaethaf holl stormydd y mis diwethaf, mae 'r ddau flaguryn sydd ar un o'r rhosod "ma's y bac" yn dal eu gafael ar fywyd, ac yn fwy na hynny, yn dechrau datblygu'n flodau go iawn. Rhwygodd gwyntoedd cryf yr hydref hwn y dail a hyd yn oed y brigau o'r coed cyfagos, ond mae dycnwch rhyfeddol gan y rhosyn hwn. Mae'n mynnu tyfu, er gwaethaf pawb a phopeth!



Pleser ychwanegol, ac un pur annisgwyl hefyd, oedd sylweddoli heno, wrth gerdded heibio i'r rhosyn, bod persawr hyfryd gan y blodau bach, er nad ydyn nhw wedi dechrau agor yn iawn eto. Rhyfedd yw clywed, ar noson arw, oer a gwlyb, persawr sy'n llawn swyn yr haf. Mae rhywbeth swreal braidd i'r profiad - mae'n groes i natur, fel petai. Wedi'r cyfan, ychydig o wir flas sydd gan yr hyn o flodau a ffrwythau'r haf sydd yn ein siopau yr adeg hon o'r flwyddyn. Naill ai maen nhw wedi eu tyfu mewn tai gwydr anferth, dan amodau gwbl artiffisial, neu maen nhw wedi eu mewnforio o wledydd twymach na Chymru, ond wedi eu casglu yn anaeddfed er mwyn iddynt aeddfedu ar eu taith hir at ein siopau.

A does neb ar unrhyw adeg o'r flwyddyn yn disgwyl persawr o'r rhosod sydd i'w prynu mewn siop. Blodau a dyfir er plesio'r llygaid yn unig ydy'r rhain - ac maen nhw eto wedi eu magu dan amodau annaturiol. Ymddengys i fi fod mwy a mwy o flodau lliwgar a hardd ar gael i ni yn y siopau - a llai a llai o rai persawrus. Neu ai fi sy'n heneiddio, ac yn chwilio'n ofer am brofiadau ieunctid, pan oedd y ffroenau'n fwy sensitif a'r synhwyrau i gyd yn fyw i bob profiad newydd? Mor drist yw gweld y ffrisias melyn fyddai -'slawer dydd - yn llenwi'r ystafell gyda'u persawr unigryw, a sylweddoli bod y lliw mor fendigedig ag erioed, ond bod y persawr wedi diflannu bron yn llwyr.

Ymfalchïaf yn fy rhosod bach dygn a phersawrus felly - a cheisio osgoi'r demtasiwn i'w diogelu rhag glaw, gwynt ac oerfel Tachweddd trwy eu torri a'u dod i ddiogelwch a gwres y tŷ. A gaf i eu gweld yn agor yn flodau hardd yn nannedd y stormydd, a herio'r gaeaf hwn gyda phersawr yr haf?

## Awyddus i Wirfoddoli?
## Mae gwefan i'ch helpu!

Ydych chi'n meddwl o dro i dro y byddai'n eithaf braf mynd i wirfoddoli yn eich ardal leol? Efallai helpu mewn siop elusen, mewn clwb brecwast cymunedol neu mewn banc bwyd efallai?

Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales

Wrth wirfoddoli mi fyddwch yn rhoi rhywbeth yn ôl i'ch bro, ac mae manteision mawr i unigolion sy'n gwirfoddoli hefyd. Yn ôl adroddiad diweddar gan Sefydliad Prydeinig y Galon, roedd 92% o bobl sy'n gwirfoddoli yn dweud ei fod yn llesol i'w iechyd meddwl nhw, a 94% yn dweud bod gwirfoddoli yn golygu eu bod yn teimlo'n llai unig.

Gall fod yn anodd gwybod lle i ddechrau cofiwch, yn enwedig os ydych chi erioed wedi gwirfoddoli o'r blaen. Diolch felly am wefan Gwirfoddoli Cymru. Mae'r wefan hon yn caniatáu i chi gofrestru eich diddordeb mewn gwirfoddoli fel unigolyn. Gallwch rannu manylion am eich lleoliad yn fras, a tua faint o oriau'r wythnos yr hoffech wirfoddoli. Yna, os bydd elusen yn chwilio am rywun, gallant gysylltu gyda chi! Gall sefydliadau gofrestru hefyd gan nodi eu hanghenion, felly gallwch gael golwg i weld os oes elusen leol i chi yn chwilio am help llaw.

Ewch draw heddiw i gael golwg ar y wefan https://volunteering-wales.net/cy i weld os oes unrhyw gyfleoedd sy'n apelio. Gallwch chwilio yn benodol am gyfleoedd gwirfoddoli yn y Gymraeg hefyd. Mae prinder gwirfoddolwyr ledled Cymru ar hyn o bryd felly byddwch yn siŵr o gael croeso cynnes iawn!

# Ysgol Gymraeg Cwm Derwen

## Gwaith Celf




Yn ystod tymor yr haf, bu disgyblion Blwyddyn 3 i 6 yn paratoi amrywiaeth o waith celf ar thema 'Cymru a'n Gymuned'. Trwy weithio gydag ar-lunydd lleol, Adele Pask, defnyddiwyd gwaith y plant i ddatblygu celf-waith metal gyda chwmni Prolaser o Hengoed ar gyfer yr ardal tu allan, a llwyddwyd i greu murlun Croeso Newydd ar gyfer yr ysgol gyda chwmni Screentec o Ferndale. Rydym yn falch iawn o'r canlyniadau.








## Hanes ein Hysgol

Y tymor yma penderfynon ni ddysgu am hanes yr ysgol fel pryd agorodd yr ysgol, pwy oedd yr athrawon dros y blynyddoedd, newidiadau yn yr adeilad a llawer mwy. Fe gasglon ni wybodaeth gan gyn disgyblion, cyfweld ag athrawon a chyfweld â'r cyn bennaeth Mr Carbis a'r pennaeth presennol Mrs Matthews.




Casglon ni data am faint o blant oedd yn yr ysgol dros amser. Darganfyddir bod nifer o blant dros amser wedi cynyddu yna gostwng yna codi eto. Defnyddion ni amrywiaeth o ffynonellau i greu llinell amser Ysgol Cwm Derwen. I orffen, fe wnaethon ni creu fideo i gyflwyno'r holl ffeithiau am hanes Ysgol Gymraeg Cwm Derwen. Am brosiect hwyl!

## Noson Dathlu Dysgu

Ar y 26ain o Hydref cafodd yr ysgol gyfan ŵyl Dathlu Dysgu er mwyn rhannu llwyddiannau a dysgu'r holl ddisgyblion gyda'n rhieni/ gofalwyr a'r gymuned. Roedd yn brynhawn llawn cyffro wrth i'r disgyblion arddangos a rhannu eu gwaith












## Meithrin a Derbyn yn ymweld â'r Theatr

Aeth ein plant Meithrin a Derbyn i Sefydliad y Glowyr, Coed-duon i wylio sioe Hansel a Gretel a mwynhau'r profiad yn fawr iawn.




## Ymweliad Rhodri Harries

Roedd blwyddyn 1 a 2 wedi mwynhau ymweliad Mr Rhodri Harries i ddysgu am y llyfr Criw'r Goedwig y tymor yma. Cawsom lawer o hwyl yn canu, dawnsio a llunio wrth ddysgu am yr holl anifeiliaid.




## Celf yn y Dyniaethau





Mae plant Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn astudio'r 'Talcen Glo' (the coal face) ym mhentref Oakdale wrth deithio nôl yn ein peiriant amser.

## Datblygiad yr Iaith Gymraeg yn ein Cwm

Wrth drafod datblygiad yr iaith Gymraeg yn yr ardal, penderfynon ni edrych ar dyfiant ysgolion Gymraeg dros amser yn Sir Caerffili. Yn gyntaf, ymchwilion ni mewn i enwau ysgolion Cymraeg Caerffili, yna ffeindion ni fap o Gaerffili. Defnyddion ni google maps ar gromlyfrau i chwilio am leoliad yr ysgolion. Nesaf, defnyddion ni liwiau mewn allwedd i ddangos ble mae'r ysgolion. Yna, ymchwilion ni ymhellach am pryd agorodd yr ysgolion a'u gosod mewn trefn. Wedyn penderfynon ni greu animeiddiad o ysgolion Caerffili mewn trefn amser ac yn eu lleoliad ar fap o Gaerffili. Mwynheuon ni ddefnyddio Mr Urdd fel ein cymeriad yn symud o ysgol i ysgol ar y map!



# Evan James (1809 – 1878)

Ganed Evan yng nghanol tref Caerffili ychydig dros ddau gan mlynedd yn ôl. Dywed am ei fagwraeth yn nhref y castell, a hynny yn nhafodiaith y Wenhwyseg, wrth gwrs, "Yng Ngharffili o'n i pan geso i ngeni, ffatri wlân 'da nhed. A ma lle cynnes i Garffili yn y nghalon i o hyd. Mi sgwennas i un o ngherddi cynnar i weitha gwlânn Carffili, er a bod yn onast prin rwyn cofio'r lle, ond rwyn cofio gwynt y lle o hyd. Arogla gwlân defad a'r tanerdy - gwahanol iawn i Bontypridd pan ethon ni yno maes o law."

O Gaerffili symudodd y teulu i gadw tafarn yr Hen Dderwydd yn Argoed yng Nghwm Sirhywi a'r Hen Felin wrth draphont Bargod a gellir gweld adfeilion hon wrth y draphont ym Margod. Yna aethant i fferm Ffos yr Hebog. Gellir gweld y fferm hon yn glir iawn wrth yrru o Gelligaer tuag at Fochriw dros heol y mynydd. Yno ar yr ochr dde, ychydig wedi pasio'r heol sy'n arwain i lawr i'r Deri, gellir gweld y fferm. Mae hon yn eithaf hawdd i deithiwr ei hadnabod, oherwydd yno cedwir bysiau cwmni Howells a gellir gweld y bysiau o bellter.

Mae sôn wedyn i'w chwaer briodi â Thomas Lewis o'r Hen Felin, Aberbargod. Ac felly, mae cysylltiad awdur geiriau ein hanthem Genedlaethol ag ardal "Cwm*ni*" un sicr a diamheuol. Dywedwch hynny wrth wŷr Pontypridd!



*Copïwyd y llun o gywaith gan glwstwr Ysgolion Rhydfelen, Pontypridd*

Ond ym Mhontypridd, wrth gwrs, y daeth i amlygrwydd a hynny fel bardd lleol uchel ei barch, ymhell cyn ennill enwogrwydd am ysgrifennu Hen Wlad fy Nhadau. Credir iddo fynd yno yn wehydd yn 1844. Ei fab James ysgrifennodd yr alaw a bu hwnnw'n cadw tafarnau ym Mhontypridd ac Aberpennar.

Dyma fel y dychmygodd yr awdur Gwyn Griffiths, y bardd yn adrodd hanes ysgrifennu'r anthem fyd enwog, "Rhyfadd fal da'th yr hen benillion 'na i'r cof nawr weti dau canmlynadd. Gwaith rhigymwr talcan slip, rwpath at iws gwlad, fuasa Dewi Alaw'n gwêd amdanyn nhw. Mil, wyth, pum, whech, oddi hi, un o'r troeon dwetha welas i nhad cyn iddo fa farw. Ro'dd blynydda ers o'n i'n byw yn Ffos-yr-hebog ar gomin Gelli-gêr. A naw mlynadd ers i fi a'r teulu setlo 'Mhontypridd. Ro'dd nhad a'm llysfam wedi'n dilyn ac yn byw yn ffermdy Troed-rhiw'r-trwyn. Cetyn bach o wâc o'dd 'na o'r ffatri yn Mill Street lan 'na i gweld nhw. Ac o'dd da fi bach o hanas wrth fodd y ddou y dwrnod 'ny. Yn y steddfod lawr yn y Castell Ifor nosweth cyn 'ny mi ganws Jâms y crotyn hynna - Iago ab Ieuan i chi - Glan Rhondda, y gân nethon ni gyfansoddi gita'n gily ddechra'r flwyddyn … *Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi…* Chi gyd - ma'r byd - yn gyfarwdd â hi erbyn hyn. Mi gas a gymaradwyath a ro'dd plant y dre yn 'i whibanu boitu'r lle bora wetyn. Gofynson ni i Mrs Davies, nymbar 13, i whare hi ar y piano i ni, a fe wetws hi, 'Ardderchog, mi ddaw rhwpath o hon.' O'dd hi'n itha reit …"

Mae hanesyn sy'n dweud i'r mab James fod yn cerdded un diwrnod ym mis Ionawr 1856 ar lan yr afon pan ddaeth alaw *Hen Wlad fy Nhadau* iddo. Pan soniodd wrth ei dad am yr alaw cyfansoddodd Evan y geiriau a ddaeth yn anthem genedlaethol i ni. Cred eraill mai cael ei ysbrydoli wnaeth Evan gan y ffaith i ddau o'i frodyr allfudo i'r Unol Daleithiau ac i hwythau ysgrifennu'n clodfori eu gwlad fabwysiedig gan annog Evan i ymuno â nhw. Ond canu i ragoriaethau Cymru wnaeth Evan yn y diwedd.

Mae nifer o hanesion difyr am Evan. Dywedir ei fod yn hoff iawn o ganlyn y Derwyddon tra bu ei wraig yn ffyddlon yn y capel sydd bellach yn amgueddfa drws nesa i'r Hen Bont ym Mhontypridd. A thra roedd Evan wrth ei bleser roedd ei wraig yn y capel yn gwrando ar y gweinidog yn condemnio gweithgareddau gan grwpiau fel y Derwyddon.

Codwyd cofeb i Evan a James James ym Mharc Ynysangharad ym Mhontypridd yn 1930. Cerflun yw hwn gan yr enwog Syr Gascombe John a dywedwyd i 10,000 o bobl fynychu'r dadorchuddiad. Ond yn fwy diweddar cofiwyd mai mewn tŷ yng Nghaerffili y ganed Evan ac mae plac bellach ar wal Neuadd y Gweithwyr yn Heol y Castell, lle safai'r tŷ lle cafodd ei eni. Hefyd, yn gymharol ddiweddar codwyd cofeb fwy teilwng iddo a'i gosod ar ben uchaf maes parcio'r Twyn yng Nghaerffili.





*(Mae'r llyfr'The Welsh National Anthem" gan Sion Jobbins, yn rhoi mwy o hanes Evan a James James yn ogystal â hynt yr anthem. Ceir crynodeb o'r llyfr yn rhifyn mis Chwefror 2023 "Cwmni")*

## Colofn y Siaradwyr Newydd

**Ann Lewis**

Mae mis Rhagfyr wedi cyrraedd. Ydych chi wedi addurno'r tŷ a rhoi'r goeden Nadolig yn ei lle? Dyma gerdd yn disgrifio coeden Nadolig. Cafodd hi ei hysgrifennu gan grŵp o bobl ifanc mewn prosiect ysgrifennu. Mae cymariaethau a throsiadau arbennig yma - pa un ydy eich ffefryn chi? Dw i'n hoffi'r disgrifiad o'r goeden fel goleudy! Nadolig Llawen i chi i gyd!


### Coeden Nadolig

Sowldiwr
gwyrdd
yng nghornel
y parlwr.
Cerflun pigog amryliw.
Neidr o dinsel
yn igam-ogamu.
Golau fel goleuadau disgo
yn fflachio.
Goleudy tir-sych
yn wincian, wincian,
wincian, wincian,
wincian
a thynnu coes.
Breichiau blinedig
yn dal
clychau
peli
rhubanau
angylion
a sêr.

*addurno : to decorate* *cymariaethau a throsiadau : similes and metaphors* *ffefryn : favourite* *cerflun : statue*
*pigog : prickly* *neidr : snake* *igam-ogamu : to zig-zag* *goleudy tir sych : a dry land lighthouse*
*breichiau blinedig : tired arms* *rhubanau : ribbons*

# Lleucu Roberts


Hen wraig a nain gecrys, lem ei thafod, yw Hannah-Jane a hi, wrth gwrs, yw canolbwynt nofel wych Lleucu Roberts a enillodd iddi Wobr Goffa Daniel Owen yn 2021. Mae'r holl nofel yn troi o gwmpas Hannah-Jane, ei pherthynas, cymdogion a'i chydnabod. Llinyn storïol gref sy'n rhedeg drwy'r nofel yw'r dirgelwch ynglyn â phwy wnaeth Hannah-Jane yn feichiog. Allwn ni ddim bod yn sicr pwy yw hwnnw tan dudalen ola'r llyfr. (Da chi, peidiwch troi yn syth at y dudalen honno, mae difyrrwch i'w gael drwy geisio dyfalu wrth ddarllen y stori'n gyfan!)




Gwraig ryfedd ac unigryw yw'r prif gymeriad sy'n benderfynol o anwybyddu'r cyngor i roi ei phlentyn llwyn a pherth i'w mabwysiadu.. Ond penderfynu hedfan y nyth wna Susan, y ferch, ac ychydig iawn y mae'n ei weld o'i mam am flynyddoedd wrth iddi briodi gŵr Siapaneaidd, Aito, a chael dau blentyn ganddo, Ishi Mai a Gethin. Mae'r teulu wedi ymsefydlu yn Gwynedd Cottage yng Nghaergrawnt gyda Ayaka, mam 99 mlwydd oed Aito. Y prif gymeriadau eraill yw Beth a Dafydd sy'n byw drws nesa i Hannah-Jane, lle gwelwn thema arall wrth i'r ddau yma fethu cytuno ynglyn â Brexit.



Wrth i'r nofel fynd yn ei blaen mae *dementia* Hannah-Jane yn cynyddu. Ac wrth i'r awdur ddelio â'r dirywiad, gwna hynny drwy ysgrifennu sensitif gan gynnwys digon o hiwmor wrth i Hannah-Jane ddweud a gwneud pethau mor gymysglyd. A gyda'r ffordd mae hyn yn dod drosodd, mae'r rhai ohonom sydd wedi byw gyda a phrofi effeithiau *dementia* yn gallu cydymdeimlo'n llwyr â'r symtomau a'r problemau mae'n achosi.




Mae hwn yn llyfr arall rhwydd ei ddarllen gan awdures doreithiog. Mae'r dafodiaeth ynddo yn naturiol sy'n rhedeg yn ystwyth a chywir wrth i ni werthfawrogi dylanwad yr amryw chwaraewyr ar y prif gymeriad. Gwelwn sut mae ymchwil Ishi Mai, yr wyres artistig, yn dylanwadu ar y stori. Mae nifer o elfennau yn gweu drwy'r stori, gan ddelio â henaint, *dementia*, hiliaeth, crefydd, priodas, marwolaeth a chreadigrwydd a phob elfen wedi'i drin â sensitifrwydd. Yn nwylo storïwr penigamp mae'r delweddau a'r cymariaethau yn aml yn taro deuddeg gan wneud i'r darllenydd wenu ar adegau tra bod dagrau yn dod yn agos iawn ar adegau eraill. Mae Hannah-Jane, er ei henaint a'i musgrellni, gyda ni tan y dudalen olaf mewn ysbyty ar ei ffordd i gartref gofal. Ond mae'r hiwmor a'r sylwadau di-flewyn ar dafod yno tan yr olaf un.

Enillodd yr awdur hefyd y Fedal Ryddiaith yn y Genedlaethol yn 2021 gyda "Y Stori Orau", ond y farn gyffredinol yw mai Hannah-Jane sy'n rhagori ar y gyfrol a honno o dipyn. Mae'n un o'r llyfrau gorau – yn y Gymraeg a'r Saesneg – i fi ei ddarllen ers tro a does ond mynd ati nawr i weld beth arall sydd ar silff lyfrau gan Lleucu Roberts.

# Merched y Wawr

Er ei bod yn nos Fercher hydrefol dywyll fis Tachwedd, fe'n cludwyd i gyfandir twym a heulog Affrica am orig yng nghwmni Mati Roberts. A hithau'n enedigol o Gaerdydd, cawsom amser difyr iawn yn gwrando ar ei hanes a'i hymroddiad wrth gefnogi achos sy'n agos at ei chalon.




Wrth deithio yn Asia rai blynyddoedd yn ôl, cafodd gyfle i wirfoddoli mewn clinig HIV ac, yn deillio o hynny, fe benderfynodd ddilyn cwrs ôl-radd mewn nyrsio. Bu'n gweithio mewn sawl ysbyty yn Llundain ac, fel rhan o'i gwaith, aeth i Somaliland a Ghana i ddarlithio ac ymarfer ei phroffesiwn.

Dau beth a ddylanwadodd arni oedd, yn gyntaf, y diffyg adnoddau ar gyfer trin cleifion yn yr ysbytai ac, yn ail, plentyn ifanc mewn cartref i blant amddifad yn diolch am y teganau a'r losin, ond yn dweud mai  yr hyn oeddent wir ei angen oedd geiriaduron ac encyclopedias!!!!! O enau plant bychain.

Mae gan Mati ddoniau creadigol iawn ac mae hi wedi bod yn casglu tecstilau lliwgar o wledydd lle mae'r diwydiant tecstilau mewn peryg. Sefydlodd gwmni ***Matico*,** lle mae hi'n gwerthu nwyddau hyfryd ar y we, gyda'r holl elw yn mynd tuag at gefnogi ysgol yn Ghana : i gyfrannu at yr adeiladu, i brynu adnoddau sylfaenol, darparu prydau bwyd a chyflogi athrawon. Cawsom ein cyfareddu wrth iddi adrodd ei hanes ar sut datblygodd ei chyfeillgarwch â Kofi, adeiladwr lleol yn Ghana, oedd yn benderfynol o adeiladu ysgol ar gyfer addysgu plant. Tri deg chwech o ddisgyblion oedd yn bresennol ar y cychwyn, ond mae hyn wedi chwyddo i bron ddau gant erbyn hyn a'r gobaith ydy datblygu'r ysgol ymhellach i gynnwys plant oedran uwchradd. Nid yw'r fenter wedi bod heb ei sialensiau. Bu'r cyfnod clo yn anodd iawn hefo'r ysgol ar gau am ddeg mis. Er yr anawsterau, bu'r athrawon yn ddiwyd yn paratoi gwerslyfrau yn wythnosol ac yn eu dosbarthu i gartrefi'r plant, yna eu casglu a'u marcio.



Roedd yr holl fenter yn agoriad llygad i ni i gyd, yn enwedig wrth gofio mai adnoddau sylfaenol iawn sydd ganddynt. Er hyn, y peth mwyaf trawiadol ydy'r gwerth sy'n cael ei roi ar addysg gan bawb yno ac, yn wyneb heriau di-ri, pa mor hapus a phositif ydy pawb sy'n ymwneud â'r fenter, yn ddisgyblion ac oedolion.

Llongyfarchiadau mawr i Mati yn wyneb ei hymroddiad llwyr i'r fenter hon a phob dymuniad da iddi hi a'r ysgol ar gyfer y dyfodol.

Ei safle gwe….. www.maticostudio.com

*Anwen Hill*

Merched y Wawr Cwm Rhymni

## Coffi a Chlonc Naws Nadoligaidd

### Llancaeach Fawr

Dydd Mercher, 6fed Rhagfyr   11.00 o'r gloch

# Colofn Dafydd Islwyn



Y Parchedig Gwilym R. Tilsley (1911-97) oedd Archdderwydd Cymru rhwng 1969 a 72. Enillodd y Gadair yn y Genedlaethol yng Nghaerffili yn 1950, ei Gadair gyntaf. Roedd yn weinidog gyda'r Wesleaid yn Aberdâr ar y pryd. Ef oedd y trydydd Archdderwydd â chysylltiad â Chwm Cynon. Bu Dyfed a J.J. yn lowyr yn yr ardal cyn mynd i'r weinidogaeth. Yn ystod ei dymor fel Archdderwydd cafod Gadeirio dau ddarpar Archdderwydd, James Nicholas yn Fflint yn 1969 ac Emrys Deudraeth ym Mangor yn 1971. Yn 1970, fe Gadeiriodd Tomi Evans Tegryn, Sir Benfro, y bardd adawodd addysg ffurfiol yn 14eg mlwydd oed. Yn 1970 a 71, coronodd Bryan Martin Davies, brodor o Frynaman, yn ail o dri bardd i gyflawni'r gamp o ennill y Goron mewn dwy eisteddfod yn olynol yn y ganrif ddiwethaf. Testun awdl fuddugol Tilsli yng Nghaerffili oedd Awdl Foliant i'r Glöwr. Yn 1922, lladdwyd tad Mrs Tilsley mewn damwain ym mhwll glo Penallta. Tybed ai cofio amdano a wnaeth Tilsli yn ei englyn sy'n cloi'r gadwyn o englynion sy'n agor yr awdl ddealladwy?

Ei fywyd na foed ofer – ei ganu
A'i gur nac anghofier
Ei glod a ddyrchafo'r glêr
A'i ogoniant a ganer.

Y prifardd Geraint Bowen (1915 – 2011) oedd yr Archdderwydd rhwng 1978 a 1981. Roedd ganddo ef gysylltiad agos ag ardal Caerffili. Brodor o Eneu'r-glyn oedd Ben Rees a briododd ei hen fam-gu Anne Butler, 13eg o Fai 1839. Bu hen fodryb iddo yn cadw tafarn goffi yng Nghaerffili. Bu merch ei chwaer, Luned Eleri, yn byw yng Nghaerffili am flynyddoedd tan y 14eg o Orffennaf eleni. Yng Nghaerffili Awst 1950, yr enillodd ei frawd Euros ei Goron Genedlaethol gyntaf. Yn ei ddwy eisteddfod gyntaf fel Archdderwydd ni chafodd Geraint Gadeirio bardd. Yn Nyffryn Llyw yn 1980, Coronodd a Chadeiriodd y Prifardd Donald Evans, Talgarreg. Ef, oedd y pedwerydd Archdderwydd i wneud y dwbwl. Dwy gyfrol ddiddorol gan Geraint Bowen oedd 'Cerddi Geraint Bowen' 1984 a'i hunangofiant 'O Groth y Ddaear' 1993. Enillodd Geraint Bowen y Gadair yn y Genedlaethol, Aberpennar 1946, am Awdl Foliant i'r Amaethwr, un o awdlau gorau'r Genedlaethol. Fe'i Cadeiriwyd gan yr Archdderwydd Crwys. Cyfarchwyd ef gan ei ewythr Myfyr Hefin ac fe ddarllenodd ef englyn ei frawd, tad y bardd buddugol. Roedd y Parchedig T. Orchwy Bowen (1882-1948), Cei Newydd, methu bod yn yr eisteddfod am ei fod yn yr ysbyty ar y pryd. Dyma'r englyn:

Ti yw marchog y marchogion – ti fy mab
Ti fy myd a'm calon;
Ddest â myd fy mreuddwydion
O dir hud drwy'r gadair hon.

Fel yn hanes Crwys, Archdderwydd rhwng 1939 a 47, bu rhaid i Myrddin ap Dafydd fod yn y swydd yn hwy na thair blynedd oherwydd amgylchiadau tu hwnt i reolaeth yr eisteddfod. Daw ei dymor i ben y flwyddyn nesa. Urddwyd ef yn Llanrwst 2019. Myrddin yw'r ail Archdderwydd a enillodd ei Gadair Genedlaethol gyntaf yng Nghwm Rhymni. Cadeiriwyd ef yn y Genedlaethol 1990 am ei awdl 'Gwythiennau', awdl fyrlymus a dorrodd dir newydd yn hanes yr awdl. Yn ei eisteddfod gyntaf fel Archdderwydd yn Llanrwst, bro ei febyd, cadeiriodd y prifardd T. James Jones, y Prifardd hynaf i ennill y Gadair. Yn y Genedlaethol yng Nghasnewydd 1988, cynhaliwyd cyfarfod i Gwilym R. Jones, Dinbych (1901-93). Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan Barti Cyd Adrodd Ysgol Gymraeg Caerffili. Cyfarchwyd ef gan Myrddin:


Breuddwydion y galon gudd – am werin
Yn un mur i'w bröydd,
Am urddas ac am wawr fydd
Ei Gymru gref, Gymraeg, rydd.

Fe urddir Mererid Hopwood yn Archdderwydd Gorsedd Cymru yn seremoni y Genedlaethol Bro Wrecsam y flwyddyn nesaf. Hi fydd yr ail ferch i lenwi'r swydd. Mererid oedd y ferch gyntaf i ennill y Gadair yn y Genedlaethol; enillodd hi yn Ninbych 2001. Ymhen dwy flynedd roedd yn cael ei Choroni ym Meifod. Hi oedd Prif Lenor y Genedlaethol, Caerdydd, 2008. Mae hi'n un o bedwar person i gyflawni'r gamp ond y ferch gyntaf. Bu hi'n byw yn y Coed Duon am gyfnod. Mae hi'n un o saith Archdderwydd fu'n darlithio i Gylch Llenyddol Bro Elyrch. Dewisais ei henglyn i Ddôl Nant, cartref T. Llew Jones (1915-2009). Fe wrthododd ef gynnig Brinley Richards, Maesteg, i gael ei enwebu i fod yn Archdderwydd!

Mae'na hewl a'i chamau'n hawlio fy nhaith
i'r fan hyn wy'n troedio
tua'r un sy'n wên bob tro.
Y llew aur sy'n fy llorio.

# ‘Major Martin’ Eto

Wrth sgrifennu am gwrt pêl Nelson yn rhifyn mis Hydref *Cwmni,* roeddwn yn gresynu na fedrwn gael copi o’r llyfr *Nelson Handball Court, History of the Court and its Players* gan H. J. Jones ar fenthyg gan fy mod yn byw yn Yr Wyddgrug. Yna, ar ôl darllen ysgrif Malcolm David am Glyndŵr Michael (a fu) a ‘MajorWilliam Martin’ (na fu) yn y rhifyn hwnnw, cofiais fod gan y dref hon yn Sir Y Fflint, tua chant a hanner o filltiroedd o Gwm Rhymni, ei lle yn yr hanes amdanyn nhw yn ystod yr Ail Ryfel Byd.




*Tudalen o lyfr ymwelwyr y Llew Du am rannau o fisoedd Mawrth ac Ebrill 1943. Manylion ‘Mr. Martin’ sydd ar y gwaelod. Dydi’r ffotograff ddim yn ymestyn i ail linell y cofnod, ond mae enw’r sir, ‘Oxon’, yn weddol ddarllenadwy. © David Rowe, Yr Wyddgrug*


Yn ogystal â’r ‘Major’, roedd yr awdurdodau Prydeinig wedi creu cymeriad ffug arall er mwyn twyllo’r gelyn – sef ei dad – a ‘ymwelodd’ â gwesty yn Stryd Fawr Yr Wyddgrug yn 1943. Ac ymhlith y papurau a ganfuwyd ar gorff y ‘Major’ pan gyrhaeddodd arfordir Sbaen roedd llythyr oddi wrth y ‘tad’ at y ‘mab’ ar ddalen o bapur sgrifennu’r gwesty, yn ogystal â’r dogfennau a awgrymai fod y cynghreiriaid yn bwriadu ymosod ar yr Almaen drwy wlad Groeg yn hytrach na thrwy’r Eidal (fel y digwyddodd mewn gwirionedd). Un a wasanaethodd yno’n ddewr oedd mab prifathro Ysgol Ramadeg Bargod. Cofiaf hyd heddiw fel y bu Mr J. J. Davies dan gryn deimlad wrth gyhoeddi yn y gwasanaeth boreuol bod y Dr Davies wedi derbyn medal am ei waith fel meddyg i’w gyd-filwyr yn yr ymosodiad.

Mae llythyr ‘Mr Martin’ yn dechrau drwy gwyno nad yw’r gwesty, Y Llew Du, mor gyfforddus ag y bu cyn y rhyfel. Ond yr unig ddewis arall am le i aros yn lleol oedd *‘imposing myself on your aunt’*, a ddioddefai oddi wrth *‘a shortage of staff’*. Ac oherwydd ei *‘strict regard for fuel economy’* roedd ei chartref *‘almost uninhabitable to a guest, at least one of my age’*. Roedd ‘Mr Martin’ yn bwriadu bod *‘in town’* [Llundain] yn ddiweddarach yn y mis, ac awgrymodd eu bod nhw’n cyfarfod yn y *Carlton Grill*. Mae’r llythyr yn terfynu *‘Your affectionate Father’* ar ôl sylw digon angharedig am *‘your cousin Pricilla’*, aelod o’r *Land Army*.

Ond yn ogystal, trefnwyd i lyfr ymwelwyr Y Llew Du gynnwys llofnod a chyfeiriad ‘Mr Martin’, rhag ofn i ysbïwyr wneud ymholiadau. Fel mae’n digwydd, mae’r cyfeiriad (Scott’s House, Eynsham Park yn Swydd Rhydychen) yn un go iawn. A fu gan y tŷ hwnnw gysylltiadau â’r cynllun i dwyllo’r Almaen? Meddiannwyd holl ystad Eynsham Park (gan gynnwys Scott’s House) gan y llywodraeth yn ystod y rhyfel ar gyfer gwersylloedd milwrol a sefydliadau eraill. Tybed sut groeso fyddai’n aros ysbïwyr pe baen nhw’n galw yno?

Mae’r Llew Du wedi hen gau. Ond mae’r drws ffrynt yn dal yno, ac mae plac ar y wal gerllaw yn nodi i’r gwesty ddyddio o’r 18fed ganrif fel arhosfan i’r goets fawr, iddo fod yn fan cyfarfod i ymgyrchoedd gwleidyddol (afreolus) yn yr 19eg ganrif ac yn gartref i’r Clwb Rotari lleol yn yr ugeinfed ganrif - tipyn o hanes go iawn!

***Philip Lloyd***



## CLWB CERDD CWM RHYMNI

**Rhif Elusen: 1089092**

**Dydd Sadwrn,13eg o Ionawr**

2:30

Ysgol Lewis, Ystrad Mynach

Bogláka Gydörgy (Fiolin) ac

Amy Butler (Piano)

**Dydd Sadwrn,17eg o Chwefror**

2:30

Canolfan Gristnogol Ystrad Mynach CF82 7AF

Canola Trio (cello, clarinet,piano}



# Y Galeri

Cardiau lluniau cerfluniau cardiau cyfarch cardiau post ffotograffau a chelfyddyd gain

**Gwasanaeth yn y Gymraeg**

Mae'r Galeri dan y Coffi Vista ganol Caerffili

Kazev67@gmail.com

BRAGDY TWT LOL

## Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol

TrefforestCF375YB


**Ar agor**

Dydd Gwener 12:00 – 18:00.

Dydd Iau 12:00 – 17:00









**Eisiau cadw cyswllt gyda'r papur dros y cyfnod Nadoligaidd? Beth am ymuno a'n tudalen Facebook a rhannwch eich lluniau Nadoligaidd gyda ni. Chwiliwch am 'Papur Bro Cwmni' ar yr ardal tudalennau (Pages) yn Facebook**





## Stanford Williams Cyf.

### Cyfrifyddion

Cyfrifon Cydymffurfiaeth Trethi Cyflogres Cyngor Busnes Llyfr-Gofnodi

**Gwasanaeth yn y Gymraeg**

**Uned C 271-273, Stryd Fawr Y Coed Duon NP12 1AW**

*www.stanfordwilliams.co.uk*










Menter Iaith Sir Caerffili

# CYFEIRIAD NEWYDD

**Menter Iaith Sir Caerffili**
**Suite 15**
**Porth Tredomen**
**Parc Tredomen**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**Caerffili**
**CF82 7FN**

Menter Iaith Sir Caerffili